**Sarah Murphy AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant**
**Minister for Mental Health and Wellbeing**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/SM/0151/25

Russell George AS, Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Mike Hedges AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

SeneddDCC@senedd.cymru
SeneddHealth@senedd.wales

4 Chwefror 2025

Annwyl Russell a Mike,

Rwyf yn ysgrifennu atoch ynghylch y Bil Tybaco a Fêps (“y Bil”) a osodwyd gerbron Senedd y DU ar 5 Tachwedd 2024. Fel y gwyddoch, fe wnaeth gosod y Bil sbarduno'r gofyniad am gydsyniad o dan Reol Sefydlog 29.1. O'r herwydd, cyflwynwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (LCM) gan Lywodraeth Cymru ar 20 Tachwedd 2024. Rwyf yn ymwybodol bod y Pwyllgor Busnes wedi cyfeirio'r LCM at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ac wedi gosod dyddiad cau o 28 Chwefror 2025 ar gyfer adrodd.

Gan fod y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad wrthi'n ystyried y Bil ar hyn o bryd, roeddwn am roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi ynghylch cyflwyno dau welliant gan Lywodraeth y DU mewn perthynas â Chymru. Gofynnodd Llywodraeth Cymru am y ddau welliant i gywiro problemau yn y drafftio ac maent yn fân ac yn dechnegol eu natur. Dyma fanylion y gwelliannau:

*Gwelliant rhif 15*
Testun y gwelliant
**Cymal 168, tudalen 121, llinell 1**
ar ôl “force” mewnosoder “(so far as not in force by virtue of subsection (2))”
Datganiad esboniadol yr Aelod
Mae cymal 168(2) yn dod â'r pwerau gwneud rheoleiddio o dan Ran 1 i rym adeg y cydsyniad brenhinol. Mae'r gwelliant hwn yn dangos bod pŵer Gweinidogion Cymru i ddod â darpariaethau penodol i rym yn ddarostyngedig i hynny ac y bwriedir iddo sicrhau cysondeb â'r drafftio yng nghymal 168(4).



Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn yr un iaith ac ni fydd gohebu yn y Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

*Gwelliant rhif 16*
<u>Testun y gwelliant</u>
Cymal 170, tudalen 122, llinell 2
ar y diwedd mewnosoder—
"(za) sections 19 to 22 and Schedule 3 and 4 (licensing of retail sales of tobacco products etc in Wales);"

<u>Datganiad esboniadol yr Aelod</u>
Mae'r gwelliant hwn yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth drosiannol neu arbed mewn cysylltiad â chychwyn darpariaethau penodol y mae ganddynt y pŵer i'w dwyn i rym drwy orchymyn o dan gymal 168(5).

Rwyf hefyd yn cynnal trafodaethau gyda Llywodraeth y DU ynghylch cymalau 34 (fel y nodir ym mharagraff 63 o'r LCM) a 150 a 151 (fel y nodir ym mharagraff 162 o'r LCM). Ym mharagraff 201 o'r LCM, dywedais hefyd y byddwn yn ceisio ymgysylltu ymhellach â Llywodraeth y DU mewn perthynas â chymalau 45, 95, 100 a 123 i geisio'r sicrwydd cyfansoddiadol angenrheidiol er mwyn sicrhau bod y darpariaethau hyn yn cyd-fynd ag Egwyddorion y Cabinet ar Ddeddfwriaeth y DU. Mae trafodaethau ar y materion yn parhau, a Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgorau am y canlyniad, cyn gynted â phosibl.

Byddaf yn bresennol yn y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar 6 Chwefror ac edrychaf ymlaen at drafod y Bil gyda'r Pwyllgor yn ystod y sesiwn.

Yn gywir,



**Sarah Murphy AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant
Minister for Mental Health and Wellbeing